



# The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

3/18 Eagle Wing  
Temple Quay House  
2 The Square  
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000  
Cwsmer:  
e-bost: [NWWFConnection@pins.gsi.gov.uk](mailto:NWWFConnection@pins.gsi.gov.uk)

---

At bartïon sydd â diddordeb, partïon  
statudol ac unigolion eraill a wahoddir  
i'r cyfarfod rhagarweiniol

Eich cyf:

Ein cyf: EN020014

Dyddiad: 4 Awst 2015

---

Annwyl Syr/Fadam

## **Deddf Cynllunio 2008 (fel y diwygiwyd) – Adran 89 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 – Rheol 8 (fel y diwygiwyd)**

### **Cais gan SP MANWEB am Orchymyn sy'n Caniatáu Cydsyniad Datblygu ar gyfer Cysylltiad Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru**

#### **Amserlen archwilio a gweithdrefn**

Rydym yn ysgrifennu i'ch hysbysu am y penderfyniadau trefniadol, wedi'r Cyfarfod Rhagarweiniol a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2015 yn Neuadd Tref Dinbych. Yn ogystal, mae'r llythyr hwn yn darparu amserlen yr archwiliad i chi, dolen i'r cwestiynau cychwynnol rydym yn eu gofyn yn yr archwiliad, a materion eraill.

Gallwch ddod o hyd i'r holl ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn, gan gynnwys nodyn am y Cyfarfod Rhagarweiniol a'r recordiad clywedol a wnaed yn y cyfarfod hynny, gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/NWWFConnection>

#### **Penderfyniadau trefniadol a'r amserlen archwilio**

Rydym wedi gwneud ein penderfyniadau trefniadol ynglŷn â'r ffordd y caiff y cynnig ei archwilio. Atodir yr amserlen archwilio fel **Atodiad B** ac mae'n cynnwys y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno gwybodaeth benodol. Mae'r amserlen archwilio hon yn cymryd lle'r amserlen archwilio ddrafft a oedd wedi'i chynnwys gyda llythyr Rheol 6 sy'n ddyddiedig 2 Gorffennaf 2015. Esbonnir penderfyniadau trefniadol a newidiadau i'r amserlen archwilio ddrafft a wnaed ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol yn **Atodiad C**. Mae'r amserlen archwilio wedi darparu ar gyfer ceisiadau a wnaed yn y Cyfarfod Rhagarweiniol lle'n bosibl.

Os ydym yn ystyried bod angen newid yr amserlen (a roddir yn **Atodiad B**), byddwn yn hysbysu partïon sydd â diddordeb ac 'unigolion eraill' a wahoddwyd i'r Cyfarfod

Rhagarweiniol (cyfeirnodau sy'n dechrau gyda NWWFC-OP) yn ysgrifenedig ac yn cyhoeddi'r newidiadau ar ein gwefan. Byddwn hefyd yn gwneud hyn os caiff dyddiad, amser a lleoliad unrhyw wrandawriad ei newid, heblaw am yn achos gohirio.

## **Diwygiadau i ddogfennau cais**

Cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol, darparodd yr ymgeisydd SP MANWEB ddiwygiadau bach i nifer o ddogfennau cais a oedd wedi eu chyflwyno'n flaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys ffotogyfosodiadau a gyflwynwyd ar eglurdeb uwch na'r cyflwyniad gwreiddiol. Cafodd y dogfennau hyn eu derbyn gan yr Awdurdod Archwilio, sydd erbyn hyn yn gwahodd sylwadau arnynt ar gyfer Dyddiad Cau 1. Gallwch edrych ar y dogfennau ar ein wefan:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/NWWFConnection>

Yn ystod y Cyfarfod Rhagarweiniol, nododd yr ymgeisydd ei bod yn bwriadu cyflwyno dogfennau fydd yn cynnig newidiadau i'r cais ar 28 Awst 2015. Gallwch edrych ar lythyr anfonodd yr ymgeisydd, sy'n ddyddiedig 24 Gorffennaf 2015, i'r Awdurdod Archwilio yn esbonio y rhesymau am gyflwyno y newidiadau yn y ddolen ganlynol:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3323624>

Pan dderbynwn y ddogfennau, mi fyddynt yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod Archwilio. Os dderbynwn rhain i'r Archwiliad, ysgrifennwn eto yn esbonio sut gaiff partion sydd â diddordeb y cyfle i wneud cyflwyniadau ar y ddogfennau newydd yma.

Yn ddiweddar, chyhoeddod yr Arolygiaeth Gynllunio Nodyn Cyngor 16: "How to request a change which may be significant". Gallwch edrych ar y nodyn gan ddefnyddio y ddolen ganlynol:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wpcontent/uploads/2015/07/Advice-note-16.pdf>

## **Dyddiadau cau ar gyfer derbyn cyflwyniadau**

Mae'n bwysig sylwi, os nad ydych yn cyflwyno'r wybodaeth erbyn y dyddiadau a roddir yn yr amserlen, ei bod yn bosibl y byddwn yn eu diystyru.

Yn ogystal, dylid darparu crynodeb i gyd-fynd ag unrhyw gyflwyniadau sy'n fwy na 1500 o eiriau. Ni ddylai'r crynodeb hwn fod yn hirach na 10% o'r testun gwreiddiol. Dylai'r crynodeb restru ffeithiau allweddol y sylw ysgrifenedig ac mae'n rhaid iddo fod yn gynrychioladol o'r cyflwyniad a wneir.

Mae pob dyddiad cau am hanner dydd ar y dyddiad a ddatgenir. Rydym yn gofyn bod partion sydd â diddordeb, lle bo'n ymarferol, yn anfon copïau electronig o'u cyflwyniadau fel atodiadau mewn neges e-bost i [NWWFConnection@pins.gsi.gov.uk](mailto:NWWFConnection@pins.gsi.gov.uk) ar y dyddiad cau perthnasol neu cyn hynny. Dylid labelu atodiadau electronig yn glir gyda theitl y pwnc ac ni ddylent fod yn fwy na 12MB ar gyfer pob neges e-bost. Pe bai cyflwyniadau electronig yn cynnwys dogfennau o 300 o dudalennau neu fwy, neu unrhyw dudalennau sy'n faint A3 neu'n fwy, cynghorir partion sydd â diddordeb i ddanfon pedwar copi papur llawn ychwanegol o'u cyflwyniad i'r Arolygiaeth Gynllunio trwy'r post. Anogir cyflwyniadau amserol cyn y dyddiadau cau a osodir yn yr

amserlen. Os bydd yn well gan bartion sydd â diddordeb roi cyflwyniadau ar ffurf copiau caled, sicrhewch eu bod yn cyrraedd erbyn y dyddiad cau.

Isod, rydym wedi esbonio rhai o'r cyflwyniadau y gofynnir amdanynt yn yr amserlen yn fwy manwl er gwybodaeth i chi, fodd bynnag, dylech gyfeirio at **Atodiad B** ar gyfer holl ddyddiadau cau cyflwyno'r cynnig hwn.

## **Cwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio**

Rydym wedi penderfynu gofyn nifer o gwestiynau ysgrifenedig. Bellach, cyhoeddir y cwestiynau hyn ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol a gellir cael mynediad atynt drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3331893>

Os hoffech dderbyn hysbysiad drwy e-bost ynghlyn a'r prosiect, yn cynnwys pan fydd cwestiynnau ychwanegol yn cael ei chyhoeddi, gallwch gofrestru ar y dudalen prosiect berthnasol. Rhestrir y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r cwestiynau hyn yn yr amserlen archwilio yn **Atodiad B**.

## **Datganiadau Tir Cyffredin ac Adroddiadau ar Effeithiau Lleol**

Yn ein llythyr Rheol 6 dyddiedig 2 Gorffennaf 2015, gofynnem am Ddatganiadau Tir Cyffredin. Bellach rydym yn gwahodd cyflwyniadau o Ddatganiadau Tir Cyffredin wedi'u cwblhau, ac unrhyw Ddatganiadau Tir Cyffredin drafft, yn ffurfiol, erbyn y dyddiad cau a restrir yn yr amserlen arholi yn **Atodiad B**.

Gwahoddir awdurdodau lleol a ddiffinnir yn a56A Deddf Cynllunio 2008 i gyflwyno Adroddiadau ar Effeithiau Lleol erbyn y dyddiad cau a nodir yn **Atodiad B**.

## **Sylwadau ysgrifenedig**

Rydym hefyd yn gwahodd pob parti sydd â diddordeb i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig a sylwadau ar gyflwyniadau perthnasol a roddwyd i mewn eisoes erbyn y dyddiad cau a nodir yn **Atodiad B**.

Nid oes unrhyw ffurf ragnodedig ar gyfer sylwadau ysgrifenedig. Gall sylwadau ysgrifenedig ymwneud ag unrhyw fater perthnasol. Nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r materion a restrir yn ein Hasesiad Cychwynnol o Brif Faterion, nac yn gyfyngedig i'r cwestiynau rydym wedi'u gofyn. Sylwch, o dan Reol 10(4) o'r Rheolau Gweithdrefn Archwilio, fod rhaid i unrhyw un, heblaw am yr Ymgeisydd, sy'n cyflwyno sylw ysgrifenedig nodi yn eu sylw ysgrifenedig y rhannau hynny maent yn cytuno â nhw a'r rhannau hynny nad ydynt yn cytuno â nhw, ac mae'n rhaid iddynt ddatgan y rhesymau am y fath anghytuno.

At hyn, yn unol â DCLG 'Planning Act 2008 (PA 2008): Guidance for the examination of applications for development consent for nationally significant infrastructure projects (Ebrill 2013)' <http://bit.ly/1Bf8qFY>, dylai cyfranogwyr ddarparu gyda'u datganiadau ysgrifenedig 'y data, y fethodoleg a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i gynnal eu cyflwyniadau'.

## **Hysbysiad o ddymuniad i fynychu gwrandawriad**

Rhestrir hysbysiad o wrandawiadau a gynllunnir ar gyfer mis Medi a Hydref 2015 yn **Atodiad D**. Mi fyddwn yn darparu hysbysiad ychwanegol os fydd angen gwrandawiadau yn mis Tachwedd. Rydym bellach yn gofyn am hysbysiadau gan –

(a) unrhyw barti sydd â diddordeb sy'n dymuno cael eu clywed mewn **gwrandawriad llawr agored**.

(b) unrhyw unigolion yr effeithiwyd arnynt ac sy'n dymuno gwneud sylwadau llafar mewn **gwrandawriad caffael gorfodol**.

(c) unrhyw barti sydd â diddordeb sy'n dymuno gwneud sylwadau llafar mewn **gwrandawriad sy'n benodol i faterion** a restrir yn **Atodiad D**.

Mae'n rhaid derbyn yr hysbysiadau hyn erbyn y dyddiad cau 1 Medi 2015, fel y nodir yn **Atodiad B**.

Os bydd parti sydd â diddordeb yn dymuno gwneud sylw llafar mewn gwrandawriad llawr agored neu wrandawriad sy'n benodol i faterion, dylent esbonio pa bynciau maent yn dymuno mynd i'r afael â nhw yn y gwrandawriad. Yn yr un modd, dylai unrhyw unigolyn yr effeithir arno, sy'n dymuno gwneud sylw llafar mewn gwrandawriad caffael gorfodol, esbonio'n glir y lleiniau tir y maent yn dymuno siarad amdanynt.

## **Gweithdrefn mewn gwrandawiadau a hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn gwrandawriad**

Rhestrir y weithdrefn i'w dilyn mewn gwrandawiadau yn Rheol 14 o'r Rheolau Gweithdrefn Archwilio <http://bit.ly/1wLTj8E>. Mae'n rhaid i unrhyw sylwadau llafar fod yn seiliedig ar naill ai'r sylwadau perthnasol neu ysgrifenedig a wneir gan yr unigolyn sydd wedi gwneud y sylwadau llafar neu ar ei ran. Byddwn yn gyfrifol am holi unigolyn sy'n rhoi tystiolaeth ar lafar ond tynnir eich sylw at Reol 14(5) y Rheolau a'r amgylchiadau sy'n gymwys i groesholi rhwng partïon.

Ymgymerir â'n harchwiliad yn bennaf drwy broses ysgrifenedig, a byddwn yn penderfynu a oes angen gwrandawriad ar fater neu bwnc penodol. Nid yw'r penderfyniad hwn yn gysylltiedig â pha mor berthnasol neu bwysig rydym yn ystyried mater neu bwnc i fod.

## **Arolygiadau safle**

Rydym wedi ymgymryd ag (a byddwn yn parhau i ymgymryd ag) arolygiadau safle digwmni ar adegau sy'n gyfleus i ni.

Byddwn yn ystyried, fel y rhestrir yn yr amserlen archwilio, unrhyw geisiadau i arolygu safleoedd eraill. Mae'n rhaid derbyn enwebiadau o leoliadau ychwanegol i'w harolygu erbyn y dyddiad cau, sef 1 Medi 2015. Mae'n rhaid i chi nodi'r rheswm dros enwebu ac a all yr Awdurdod Arholi barhau gyda'r arolygiad yn ddigwmni (ac, os na, pam lai). Dylech fod yn ymwybodol na allwn ymgymryd arolygiadau digwmni ar dir preifat, neu lle bod rhaid dilyn mesurau arbennig o ran diogelwch.

Sylwch nad yw'r arolygiad safle yn gyfle i wneud sylwadau llafar ar y cynnig. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn yn gwahodd cyfranogwyr i esbonio nodweddion neu

safleoedd diddorol penodol.

Caiff rhestr ar gyfer arolygiad safle gyda chwmni ei rhestru ar ein gwefan wythnos cyn yr ymweliad. Os na dderbynnir ceisiadau am ymweliad o'r fath, caiff hysbysiad canslo ei gyhoeddi yn yr un modd.

## Y Gymraeg

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg a Saesneg. Bydd cyfleusterau cyfieithu o Gymraeg i Saesneg ar gael ym mhob gwrandawriad, ond rhowch wybod i ni o flaen llaw os ydych yn bwriadu defnyddio'r rhain.

Rhowch wybod i ni os ydych yn dymuno derbyn gohebiaeth yn y dyfodol yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r llythyr hwn ar gael yn Saesneg gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3286017>

The Planning Inspectorate welcomes contributions in both Welsh and English. Welsh to English translation facilities will be available at each hearing, but please let us know in advance if you intend to make use of these.

Please let us know if you wish to receive future correspondence in both English and Welsh. This letter is available in English using the following link:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3286017>

## Dyfarnu costau

Dylech fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o ddyfarnu costau yn erbyn partion sy'n ymddwyn yn afresymol.

Er mwyn deall ystyr 'ymddygiad afresymol' yng nghyd-destun archwiliad o dan Ddeddf Cynllunio 2008, mae'n bosibl y byddai'n ddefnyddiol i chi ddarllen arweiniad y Llywodraeth: 'Awards of costs: examinations of applications for development consent orders (Gorffennaf 2013)' y gellir dod o hyd iddo ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol (<http://bit.ly/1zV1wSq>).

## Hysbysiadau'r dyfodol

Os ydych yn barti sydd â diddordeb (cyfeirnod sy'n dechrau gyda 100 neu NWWFC-AFP) byddwch yn parhau i dderbyn gohebiaeth gan yr Arolygiaeth Gynllunio ynglŷn â'r archwiliad drwy gydol y broses.

Os ydych wedi derbyn y llythyr hwn oherwydd y cawsoch eich gwahodd i fynychu'r Cyfarfod Rhagarweiniol, ond nad ydych yn barti sydd â diddordeb (cyfeirnod sy'n dechrau gyda NWWFC-OP), **ni fyddwch** yn derbyn unrhyw gyfathrebiad gennym ynglŷn â'r cynnig hwn. Fodd bynnag, cewch chi ymweld â'r dudalen prosiect berthnasol ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol er mwyn parhau i dderbyn y newyddion diweddaraf am gynnydd yr archwiliad o'r cynnig gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/NWWFConnection>

Os ydych yn ymgynghorai statudol, neu'n awdurdod lleol heb gyfrifoldeb uniongyrchol yn yr ardal datblygu arfaethedig, ac nad ydych wedi gwneud sylw perthnasol (cyfeirnod sy'n dechrau gyda NWWFC-SP), dylech hysbysu rheolwr yr achos os ydych yn dymuno mynd yn barti cofrestredig erbyn **1 Medi 2015**. **Ni fydd ymgynghoreion statudol nad ydynt wedi gwneud sylw perthnasol ac nad ydynt yn hysbysebu rheolwr yr achos o'u dymuniad i fod yn barti sydd â diddordeb yn derbyn rhagor o ohebiaeth.**

Os bydd angen rhagor o wybodaeth neu sylwadau ysgrifenedig (gofyniad Rheol 17) ar y dyddiadau a nodir o fewn **Atodiad B**, caiff y rhain eu hanfon dim ond at y bobl hynny y mae'n gymwys iddynt. Fodd bynnag, cânt eu cyhoeddi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

## **Rheoli Gwybodaeth**

Mae gan yr Arolygiaeth Gynllunio ymrwymiad i dryloywder gwybodaeth. Felly, gallwch ddod o hyd i'r holl wybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer y prosiect hwn (os cafodd ei derbyn) a chofnod o'r cyngor y mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi'i roi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Cafodd preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall ei amddiffyn yn unol â'n Siarter Gwybodaeth.

Yr eiddoch yn gywir

*Lillian Harrison*

**Dr Lillian Harrison**  
**Aelod Arweiniol y Panel o Arolygwyr Archwilio**

### **Atodiadau:**

- A. Argaeledd sylwadau a dogfennau cais
- B. Amserlen ar gyfer archwilio'r cynnig
- C. Penderfyniadau trefniadol a wnaed ar ôl y cyfarfod rhagarweiniol
- D. Hysbysiad o wrandawiadau

Gellir rhoi cyngor am wneud cais am gydsyniad datblygu neu wneud sylwadau ynglŷn â chais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r ohebiaeth hon yn gyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno a dylech chi gael eich cyngor cyfreithiol a phroffesiynol yn ôl y gofyn.

Caiff cofnod o'r cyngor a ddarperir ei gofnodi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Caiff preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall ei amddiffyn yn unol â'n Siarter Gwybodaeth a dylech fwrw golwg drosti cyn anfon gwybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio.

**Argaeledd Dogfennau Archwilio**

Mae SP MANWEB, yr ymgeisydd, wedi darparu copi o'r dogfennau ymgeisio fel y gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Gynllunio i'w harolygu a'u copïo yn Siopau Un Stop Dinbych a Llanelwy.

Mae'r holl ddogfennau ymgeisio, gan gynnwys sylwadau perthnasol a dogfennau ymgeisio, ar gael ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/NWWFConnection>

Gallwch edrych ar y dogfennau ar ffurf electronig yn y lleoliadau canlynol.

**Lleoliadau Dyddodi Electronig:**

<b>Llyfrgell/ Cyfeiriad</b>		<b>Oriau Agor</b>	
Llyfrgell Dinbych Hall Square Dinbych LL16 3NU		Dydd Llun – 9.30am-7pm Dydd Mawrth – 9.30am-5pm Dydd Mercher – 9.30am-5pm Dydd Iau – 1pm-5pm Dydd Gwener – 9.30am-5pm Dydd Sadwrn – 9.30am-12.30pm Dydd Sul – ar gau	
Llyfrgell Llanelwy The Roe Llanelwy LL17 0LU		Dydd Llun – 9.30am-4.30pm Dydd Mawrth – 1pm-4.30pm Dydd Mercher – 9.30am-4.30pm Dydd Iau – ar gau Dydd Gwener – 9.30am-4pm Dydd Sadwrn – ar gau Dydd Sul – ar gau	
<b>Costau Argraffu</b>	<b>Argraffu Du a Gwyn</b>	<b>Copïo Du a Gwyn</b>	<b>Argraffu Iliw</b>
<b>A4</b>	15c	10c	35c
<b>A3</b>	Ddim yn berthnasol	15c	Ddim yn berthnasol
<b>Dolen i leoliad pob llyfrgell y Cyngor:</b>			
<a href="http://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/libraries-and-archives/libraries-and-archives.aspx">www.denbighshire.gov.uk/en/resident/libraries-and-archives/libraries-and-archives.aspx</a>			
<a href="http://www.conwy.gov.uk/sectionextra.asp?catid=6579">www.conwy.gov.uk/sectionextra.asp?catid=6579</a>			

## Amserlen ar gyfer archwilio'r cais

Mae'r Awdurdod Archwilio o dan ddyletswydd i gwblhau archwiliad ar y cais erbyn diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl cau'r cyfarfod rhagarweiniol.

Mae archwiliad yr Awdurdod Archwilio o'r cais ar ffurf ystyriaeth o bob dogfen gais, a sylwadau perthnasol, ysgrifenedig. Yn ogystal, bydd yr Awdurdod Archwilio yn ystyried sylwadau llafar a wneir yn y gwrandawiadau.

Mae argraffiad yma o'r amserlen yn amrywio o fersiwn ddrafft yr amserlen oedd ynghlwm a'r llythyr Rheol 6 oherwydd fod y Panel wedi cytuno i rai o newidiadau gofynnodd yr ymgeisydd a partiön sydd â diddordeb yn ystod y Cyfarfod Rhagarweiniol. Mae'r newididadau yn cynnwys sesiynnau ychwanegol ar gyfer arolygiad y safle gyda chwmni (rhag ofn mae angen mwy na un diwrnod i'w chwblhau oherwydd tywydd garw); gwrandawriad llawr agored ychwanegol yn mis Tachwedd; oedi Dyddiad Cau 3 tan 15 Hydref a Dyddiad Cau 4 tan 30 Hydref 2015 sy'n golygu fod gwrandawiadau mis Tachwedd (ac arolygiad y safle gyda chwmni os oes angen) wedi'i drefnu ar gyfer y wythnos yn dechrau Dydd Llun 9 Tachwedd, efo dyddiadau cau ddiweddarach ychydig yn hwyrach na hyn a awgrymwyd yn wreiddiol.

Eitem	Materion	Erbyn pa ddyddiad
1	Cyfarfod Rhagarweiniol	<b>Dydd Mawrth 28 Gorffennaf 2015</b>
2	Awdurdod Archwilio yn dosbarthu: <ul style="list-style-type: none"> <li>· Yr amserlen archwilio</li> <li>· Cwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio (ar y wefan)</li> </ul>	Cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol
3	<b>Dyddiad cau 1</b> Dyddiad cau ar gyfer derbyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>· Esboniadau ar sylwadau perthnasol</li> <li>· Sylwadau ysgrifenedig gan bob parti sydd â diddordeb</li> <li>· Adroddiadau Effaith Leol gan unrhyw awdurdod lleol</li> <li>· Datganiadau Tir Cyffredin y gofynnwyd amdanynt gan yr Awdurdod Archwilio</li> <li>· Ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio</li> <li>· Sylwadau gan bartiön sydd â diddordeb o ran</li> </ul>	<b>Dydd Mawrth 1 Medi 2015 am hanner dydd</b>



	<p>cyflwyniadau Gorffennaf 2015 gan yr ymgeisydd fel ymateb i Restr Wirio a55.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>· Hysbysiad o ddymuniad i wneud sylwadau llafar yn y gwrandawiadau sy'n benodol i'r mater</li> <li>· Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn gwrandawriad llawr agored</li> <li>· Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn gwrandawriad caffael gorfodol</li> <li>· Hysbysiad o'r dymuniad i fynychu arolygiad y safle gyda chwmni, lleoliadau a awgrymir a chyfiawnhad</li> <li>· Hysbysiad gan bartion statudol o ddymuniad i gael eu hystyried yn bartion â diddordeb</li> </ul>	
4	<p><b>Dyddiad cau 2</b></p> <p>Dyddiad cau ar gyfer yr Awdurdod Archwilio yn derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>· Sylwadau ar sylwadau ysgrifenedig</li> <li>· Sylwadau ar Adroddiadau Effaith Leol</li> <li>· Sylwadau ar ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio</li> <li>· Gorchymyn Cydsyniad ar Ddatblygu drafft ac wedi'i ddiwygio gan yr ymgeisydd</li> <li>· Rhestr o liniaru gan yr ymgeisydd</li> </ul>	<p><b>Dydd Iau 17 Medi 2015 am hanner dydd</b></p>
5	<p>Arolygiad y safle gyda chwmni (yn ôl y gofyn)</p>	<p><b>Dydd Mawrth 22 Medi 2015</b></p>
6	<p>Dyddiad arall ar gyfer arolygiad y safle gyda chwmni (rhag ofn tywydd garw ar 22 Medi 2015)</p> <p>Gwrandawriad llawr agored (yn cychwyn am 17:30)</p>	<p><b>Dydd Mercher 23 Medi 2015</b></p>
7	<p>Gwrandawriad caffael gorfodol (gan gynnwys, yn ôl y gofyn, a127 o rifynnau 2008 y Deddf Cynllunio)</p>	<p><b>Dydd Iau 24 a Dydd Gwener 25 Medi 2015</b></p>
8	<p>Gwrandawriadau sy'n benodol i'r mater (gan gynnwys, yn ôl y gofyn, materion tirwedd, bioamrywiaeth ac adeiladu)</p>	<p><b>Dydd Mawrth 29 Medi tan ddydd Iau 1 Hydref 2015</b></p>
9	<p>Gwrandawriad sy'n benodol i fater ar y Gorchymyn Cydsyniad ar Ddatblygu drafft</p>	<p><b>Dydd Gwener 2 Hydref 2015</b></p>

10	<p><b>Dyddiad cau 3</b></p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>· Dogfennau wedi'r gwrandawriad</li> <li>· Gorchymyn Cydsyniad ar Ddatblygu drafft yr ymgeisydd wedi'i ddiwygio</li> <li>· Unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan yr Awdurdod Archwilio</li> </ul>	<p><b>Dydd Gwener 16 Hydref am hanner dydd</b></p>
11	<p><b>Dyddiad Cau 4</b></p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>· Sylwadau ar Orchymyn Cydsyniad ar Ddatblygu drafft yr ymgeisydd wedi'i ddiwygio</li> <li>· Sylwadau ar restr o liniaru yr ymgeisydd</li> <li>· Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan yr Awdurdod Archwilio</li> </ul>	<p><b>Dydd Gwener 30 Hydref 2015 am hanner dydd</b></p>
12	<p>Gwrandawiadau sy'n benodol i'r mater a/neu wrandawiadau caffael gorfodol (yn ôl y gofyn)</p>	<p><b>Dydd Mawrth 10 tan ddydd Mercher 11 Tachwedd 2015</b></p>
13	<p>Ail Gwrandawriad llawr agored (os oes angen) ac os fydd y tywydd yn ngharw am y ddau ddyddiad sy'n arfaethedig i arolygiad y safle gyda chwmni yn mis Medi, mi fydd hyn wedi'i aildrefnu ar gyfer 12 Tachwedd 2015 efo'r ail Gwrandawriad llawr agored yn cychwyn am 17:30.</p>	<p><b>Dydd Iau 12 Tachwedd 2015</b></p>
14	<p><b>Dyddiad cau 5</b></p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>· Dogfennau wedi'r gwrandawriad (yn ôl y gofyn)</li> <li>· Unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan yr Awdurdod Archwilio</li> </ul>	<p><b>Dydd Iau 19 Tachwedd 2015 am hanner dydd</b></p>
15	<p>Cyhoeddi Gorchymyn Cydsyniad ar Ddatblygu ymgynghori drafft Awdurdod Archwilio (ac Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop yn ôl y gofyn)</p>	<p><b>Dydd Llun 30 Tachwedd 2015</b></p>
16	<p><b>Dyddiad cau 6</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>· Sylwadau ar Orchymyn Cydsyniad ar Ddatblygu drafft ymgynghori'r Awdurdod Archwilio (a'r Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn</li> </ul>	<p><b>Dydd Llun 21 Rhagfyr 2015 am hanner dydd</b></p>

	<p>Ewrop yn ôl y gofyn)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan yr Awdurdod Archwilio</li> </ul>	
17	<p><b>Dyddiad cau 7</b></p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ymatebion i sylwadau ar Orchymyn Cydsyniad ar Ddatblygu ymgynghori drafft Awdurdod Archwilio (a'r Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop yn ôl y gofyn)</li> <li>Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan yr Awdurdod Archwilio</li> </ul>	<p><b>Dydd Llun 11 Ionawr 2016 am hanner dydd</b></p>
18	<p>Mae'r Awdurdod Archwilio o dan ddyletswydd i gwblhau archwiliad o'r cais erbyn diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol</p>	<p><b>Dydd Iau 28 Ionawr 2016</b></p>

### Dyddiadau Cyhoeddi

Caiff yr holl wybodaeth a dderbynnir ei chyhoeddi ar wefan y prosiect cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau.

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/NWWFConnection>

### Agendâu ar gyfer Gwrandawiadau

Sylwer y byddwn yn anelu at gyhoeddi agenda drafft manwl ar gyfer pob gwrandawriad ar wefan y prosiect o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawriad; ond mae'n bosibl y bydd yr agenda ei hun ar ddiwrnod pob gwrandawriad yn destun newidiadau yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Archwilio.

### Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop (RIES)

Pan fydd yr ymgeisydd wedi darparu Adroddiad Dim Effeithiau Sylweddol neu Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd gyda'r cais Gorchymyn Cydsyniad ar Ddatblygu, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Archwilio yn penderfynu cyhoeddi Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop yn ystod yr archwiliad. Mae'r Adroddiad hwn yn adroddiad ffeithiol o'r wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r Awdurdod Archwilio ar faterion Aseidiadau o Rheoliadau Cynefinoedd yn ystod yr archwiliad hyd at ddyddiad cyhoeddi'r Adroddiad, at ddibenion galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, fel yr awdurdod cymwys, i ymgymryd â'u Aseidiadau o Rheoliadau Cynefinoedd. Nid yw'n farn yr Awdurdod Archwilio ar faterion Aseidiadau o Rheoliadau Cynefinoedd. Gwahoddir sylwadau ar yr Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop gan yr Awdurdod Archwilio a chaiff unrhyw rai a dderbynnir eu cymryd i ystyriaeth fel rhan o Argymhelliad yr Awdurdod Archwilio i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd.

## Penderfyniadau gweithdrefnol a wneir gan yr Awdurdod Archwilio

Mae'r Awdurdod Archwilio wedi gwneud y penderfyniadau gweithdrefnol canlynol o dan Adran 89(3) Deddf Cynllunio 2008:

### 1. Diwygiad i'r amserlen archwilio

Atodir yr amserlen ddiwygiedig fel **Atodiad B**, ac atodir manylion o ran gwrandawiadau archwiliad arfaethedig fel **Atodiad D**.

Rhoddir esboniad ynglŷn ag unrhyw newidiadau a wneir i'r amserlen Archwilio ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol yn y rhaglith i **Atodiad B**.

### 2. Diweddariadau i'r dogfennau cais

Yn ei gyflwyniad i'r Arolygiaeth Gynllunio cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol, darparodd yr ymgeisydd ddogfennau fel ymateb i'r Rhestr Wirio Adran 55 (dyddiedig Gorffennaf 2015), yn ogystal â darparu diweddariadau i ddogfennau a oedd wedi'u cyflwyno eisoes, gan gynnwys cynlluniau tir, arolwg coedyddiaeth a ffotogyfosodiadau.

Mae'r Panel wedi penderfynu derbyn y dogfennau hyn i'r Archwiliad ond mae wedi ymgorffori rhagor o gwestiynau sy'n chwilio am eglurhad ar y dogfennau hyn yn eu cwestiynau ysgrifenedig. Dylai'r ymgeisydd, ac unrhyw barti sydd â diddordeb sydd eisiau ymateb, ateb y rhain. Ychwanegwyd dyddiad cau ar gyfer partïon sydd â diddordeb mewn gwneud sylwadau ar y dogfennau hyn i'r amserlen yn Dyddiad Cau 1.

## **Hysbysiad o wrandawiadau**

Fel y rhestrir yn yr amserlen archwilio (Atodiad B), dylai'r partion hynny sydd â diddordeb sy'n dymuno siarad mewn gwrandawiadau hysbysu Nicholas Coombes ar [NWWFConnection@pins.gsi.gov.uk](mailto:NWWFConnection@pins.gsi.gov.uk) neu trwy ddefnyddio'r cyfeiriad post ar dudalen flaen y llythyr hwn. Dylech ein hysbysu erbyn hanner dydd 1 Medi 2015. Byddai'n ein cynorthwyo gyda threfnu'r gwrandawriad pe gallech ddweud wrthym am unrhyw anghenion sydd gennych (e.e. mynediad i bobl anabl, dolen clyw ayyb). Yn ogystal, dylech ein hysbysu ymlaen llaw os ydych yn dymuno siarad Cymraeg neu ddefnyddio ein gwasanaethau cyfieithu. Sicrhewch eich bod yn cynnwys eich cyfeirnod parti â diddordeb yn eich gohebiaeth, a gwnewch yn glir pa wrandawriad(au) rydych yn dymuno cymryd rhan ynddo/ynddynt.

Mae'r Awdurdod Archwilio yn hysbysu am y gwrandawiadau canlynol, gan gydymffurfio â Rheol 13 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'i diwygiwyd).

### **1. Gwrandawriad Llawr Agored**

Dyddiad y gwrandawriad: Dydd Mercher 23 Medi 2015

Amser y gwrandawriad: 5.30 y.p

Lleoliad: Neuadd Tref Dinbych. Lôn y Goron, Dinbych  
Sir Ddinbych LL16 3TB

Diben gwrandawriad llawr agored yw caniatáu i bartion sydd â diddordeb annerch yr Awdurdod Archwilio ar faterion perthnasol o'u dewis. Caiff amser siarad ei rannu rhwng partion sydd â diddordeb sy'n cofrestru ymlaen llaw. Mae'n bosibl y caiff partion nad ydynt yn cofrestru ymlaen llaw eu clywed ar ddiwedd y cyfarfod os bydd amser ar gael, yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Archwilio.

Bydd y lleoliad yn agored i'r cyhoedd hanner awr cyn dechrau'r gwrandawriad. Bydd y gwrandawiadau yn cau yn gynharach na'r amser cau a hysbysebir os nad oes unrhyw un o'r partion sydd â diddordeb sy'n weddill yn bresennol ac yn dymuno siarad.

### **2. Gwrandawriad caffael gorfodol**

Dyddiad y gwrandawriad: Dydd Iau 24 Medi tan ddydd Gwener 25 Medi 2015

Amser y gwrandawriad: 10.00 y.b

Lleoliad: Neuadd Tref Dinbych. Lôn y Goron, Dinbych  
Sir Ddinbych LL16 3TB

Diben y gwrandawiadau caffael gorfodol yw cael trafodaeth am rinweddau'r achos dros gaffael hawliau dros leiniau tir unigol. Caiff y gwrandawiadau eu harwain gan yr Awdurdod Archwilio, a bydd pobl yr effeithir arnynt (tirfeddianwyr, tenantiaid, ayyb) a'r ymgeisydd yn cymryd rhan. Dylai pobl yr effeithir arnynt gofrestru ymlaen llaw eu bod yn dymuno cyfranogi (a pha ddiwrnod y byddai'n well ganddynt fod yn bresennol) a nodi'r lleiniau penodol a

gâi eu heffeithio. Dylai partion ddisgwyl gael eu holi gan yr Awdurdod Archwilio ac i gyfiawnhau eu datganiadau.

**3. Gwrandawiadau sy'n benodol i'r mater – i gynnwys:**

- Effeithiau adeiladu;
- Effeithiau ar fuddiannau bioamrywiaeth;
- Effeithiau ar risg o lifogydd ac adnoddau dŵr;
- Effeithiau ar fuddiannau treftadaeth;
- Rheoli tir;
- Tirwedd ac effeithiau gweledol;
- Monitro, rheolaeth a chynlluniau a darpariaethau lliniaru;
- Effeithiau gweithredol a digomisiynu;
- Egwyddor: ymagwedd asesu a chefnidir polisi;
- Effeithiau economaidd-gymdeithasol

Dyddiadau'r gwrandawiadau: Dydd Mawrth 29, dydd Mercher 30 Medi a dydd Iau 1 Hydref 2015

Amser y gwrandawiadau: 10.00 y.b

Lleoliad: Neuadd Tref Dinbych. Lôn y Goron,  
Dinbych Sir Ddinbych LL16 3TB

Diben gwrandawriad sy'n benodol i faterion yw trafod materion perthnasol a arweinir gan yr Awdurdod Archwilio. Dylai partion ddisgwyl gael eu holi gan yr Awdurdod Archwilio ac i gyfiawnhau eu datganiadau.

Caiff yr agenda ar gyfer y gwrandawiadau hyn ei gyhoeddi ar ein gwefan 5 diwrnod cyn eu bod yn dechrau a gwneir pob ymdrech i sicrhau y caiff y materion eu trafod ar y diwrnodau y cawsant eu hamserlennu. Mae'n bosibl y bydd hyn yn golygu bod y gwrandawiadau'n parhau ar ôl 5:00pm. Mae'r Awdurdod Archwilio yn cadw'r hawl i aildrefnu'r agendâu ar gyfer y gwrandawiadau hyn ar fyr rybudd, os oes angen, neu os byddant yn cymryd yn hirach na'r disgwyl, mae'n bosibl y bydd rhaid gohirio rhai materion penodol i'r gwrandawiadau diweddarach a amserlennir ar gyfer 3 a 4 Tachwedd 2015.

**4. Gwrandawriad sy'n benodol i'r mater – Gorchymyn Cydsyniad ar Ddatblygu**

Dyddiad y gwrandawriad: Dydd Gwener 2 Hydref 2015

Amser y gwrandawriad: 10.00 y.b

Lleoliad: Neuadd Tref Dinbych, Lôn y Goron, Dinbych  
Sir Ddinbych LL16 3TB

Bydd y gwrandawriad hwn yn canolbwyntio ar fater penodol y Gorchymyn Cysyniad ar Ddatblygu drafft. Dyma'r gorchymyn y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei wneud pe bai'n dymuno cydsynio i'r cais. Mae'r drafodaeth yn y gwrandawriad hwn 'heb ragfarn'; ystyr hyn yw y caiff partion wneud cyfraniadau er mwyn gwella ansawdd y Gorchymyn Cydsyniad ar Ddatblygu drafft heb annilysu eu safbwyntiau, sef cefnogi neu wrthwynebu'r cynllun yn ei gyfanrwydd.

Beth bynnag yw ei argymhelliad, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Archwilio gyflwyno Gorchymyn Cydsyniad ar Ddatblygu drafft i'r Ysgrifennydd Gwladol. Nid yw trafodaeth am bethau penodol y Gorchymyn Cydsyniad ar Ddatblygu drafft yn nodi bod yr Awdurdod Archwilio wedi penderfynu am y cais.

Mae'n debygol y bydd y gwrandawriad yn glŷn â'r Gorchymyn Cydsyniad ar Ddatblygu drafft yn dechnegol ei natur a bydd yn seiliedig ar eiriad penodol y Gorchymyn drafft.

### **Hysbysiad o arolygiad safle**

Mae'r Awdurdod Archwilio yn rhoi rhybudd o'r arolygiad safle gyda chwmni canlynol, gan gydymffurfio gyda Rheol 16 o'r Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd).

Dyddiad yr arolygiad: Dydd Mawrth 22 Medi 2015 (ac/neu Dydd Mercher 23 Medi os fydd y tywydd yn garw ar 22 Medi neu mae angen fwy o amser i cwblhau'r arolygiad)

Amser yr arolygiad: 10.00 y.b

Pwynt ymadael: Neuadd Tref Dinbych, Lôn y Goron, Dinbych, Sir Ddinbych LL16 3TB

Mae'r arolygiad safle hwn yn ddibynnol ar geisiadau yn cael eu gwneud erbyn y dyddiad cau, sef 1 Medi 2015. Os na wneir unrhyw geisiadau, mae'n bosibl y caiff yr ymweliad ei ganslo. Caiff rhestr neu rybudd canslo ei ddarparu un wythnos ymlaen llaw ar dudalen we'r prosiect ar:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/NWWFConnection>